Papur Bro Abertawe


# WILIA

RHIFYN 462 CHWEFROR 2024 | AM DDIM

## DATHLU GŴYL DDEWI GYDA CHÔR TŶ TAWE

-HEINI GRUFFUDD

Bydd y côr yn cynnal noson o ganu a hwyl yn Nhŷ Tawe, nos Fercher, 6 Mawrth am 7. Cyfle i bawb ganu, gyda danteithion.




## MERCHED Y WAWR YN DATHLU DYDD MIWSIG CYMRU

-ELIZABETH MORGAN,
YSGRIFENNYDD MERCHED Y WAWR TREBOETH

Prynhawn dydd Gwener Chwefror 9fed daeth canghennau Treboeth a Threforys at ei gilydd yn festri Seion Newydd, Treforys i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Y gwesteion gwadd oedd Grŵp Iwcilelis o Gymry Caerfyrddin. Roedd chwech yn y grŵp a pherfformiwyd amrywiaeth o ganeuon - emynau cyfarwydd ynghŷd â chaneuon traddodiadol Cymreig. Rhoddwyd cefndir yr offeryn ac hefyd eglurhad o'r gwahanol fathau o iwcileli. Cafodd sawl un o'r aelodau gyfle i gael tro ar yr iwcileli - am y tro cyntaf i'r rhan fwyaf ohonom - ac yna perfformio'r gân.
Roedd yn brynhawn arbennig yn llawn hwyl ac yn ddathliad hyfryd o gerddoriaeth Cymreig.

## RHIANNON O'CONNOR A PARISA FOULADI

-DAFYDD WILLIAMS

Ar Ddydd Miwsig Cymru, bu'r ddau'n diddanu myfyrwyr, staff ac ymwelwyr yng nhhyntedd Theatr Prifysgol Abertawe, diolch i drefniant rhwng Menter Iaith Abertawe a Rhian Jones, cyfarwyddwr y Theatr.

Roedd un o ganeuon Rhiannon O'Connor yn ymwneud â'i phrofiad yn Sir Gâr. Roedd hi a'i gŵr am brynu fferm, ond prynwyd hi gan gwmni i blannu coed, a dwyn tir ffermio da.





## HWYL HANNER TYMOR YN ABERTAWE

-ANYS WOOD

Mwynhaodd criw o blant o Abertawe y cyfle i fynd ar daith hwyliog o amgylch y ddinas yn ystod yr hanner tymor. Wedi'i threfnu gan Urdd Gorllewin Morgannwg a gyda chefnogaeth Menter Iaith Abertawe, cafodd y plant y cyfle i fwynhau sesiwn yn Ninja Warrior, chwarae bowlio a chinio hyfryd yn y 'Slug & Lettuce', cyn cwpla'r diwrnod trwy chwarae gêm o golff mini yn Bunkers.

Diwrnod llawn sbort a phawb wedi joio!



## GŴYL CROESO ABERTAWE

-MENTER IAITH ABERTAWE

Cynhelir dathliadau Dydd Gŵyl Dewi blynyddol Cyngor Abertawe, Gŵyl Croeso Abertawe, dros bedwar diwrnod o 29 Chwefror a bydd yn cynnwys cerddoriaeth fyw, arddangosiadau coginio, adloniant i'r teulu a gorymdaith stryd.




Mae'r lleoliadau amrywiol yn cynnwys canol y ddinas - lle bydd hwyl am ddim i bawb - a Neuadd Brangwyn ac Arena Abertawe, lle bydd digwyddiadau cerddorol cofiadwy mewn lleoliadau dan do o'r safon uchaf.

Meddai Robert Francis-Davies, Aelod Cabinet Cyngor Abertawe: "Mae gennym raglen wych o ddigwyddiadau eleni a bydd yn dechrau gyda digwyddiad Croeso, a fydd yn llawn lliw a chanu - ac yn cynnwys cyfres o ddathliadau cyffrous ar draws y ddinas ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Trwy gydol 2024, bydd digwyddiadau lleol yn amrywio o adloniant am ddim a chost isel i deuluoedd i gerddoriaeth gan artistiaid enwog o safon ym Mharc Singleton ac athletwyr o'r radd flaenaf."

Mae'r gerddoriaeth fyw fel rhan o'r ŵyl wedi cael ei rhaglennu mewn partneriaeth â'r Swansea Music Hub a Menter Iaith Abertawe. Bydd y rhaglen yn cynnwys perfformiadau gan lu o'r artistiaid mwyaf cyffrous o Abertawe a thu hwnt ar lwyfan Maes Dewi Sant yn ystod y dydd, yn ogystal ag amrywiaeth o gigs mynediad am ddim ledled y ddinas fel rhan o'r rhaglen Croeso x Nightworks.

Mae'r digwyddiad Croeso x Nightworks yn dechrau gyda noson lansio mynediad am ddim yn Arena Abertawe i ddathlu'r gystadleuaeth Cân i Gymru S4C yn yr arena'r noson ganlynol. Bydd y digwyddiad lansio hwn yn cynnwys setiau gan gyn-artistiaid Cân i Gymru gan gynnwys Mali Hâf a Morgan Elwy, a bydd yn gyfle i ddysgu mwy am bopeth sy'n digwydd dros y penwythnos. Ychydig iawn o docynnau am ddim sydd ar ôl ar gyfer y sioe fyw ar y nos Wener, ac maen nhw ar gael trwy wefan yr arena.

Ar ddydd Sadwrn yr 2il o Fawrth bydd noson o gerddoriaeth werin Cymraeg gyda Brigyn a mwy yn lleoliad Tŷ Tawe, tra bydd yr Elysium ar y Stryd Fawr yn gweld sêr y sîn rap Gymreig - Sage Todz, Luke RV, a'u ffrindiau yn cadw'r parti i fynd tan yn hwyr.

Dywedodd Tomos Jones, Prif Swyddog Menter Iaith Abertawe: "Rydym wrth ein boddau i gydweithio gyda Chyngor Abertawe i raglennu cerddoriaeth y digwyddiad Gŵyl Croeso eto eleni. Dyma'r lein-yp gorau eto, gyda rhywbeth at ddant pawb dros gyfnod y penwythnos. Mae'r ffaith bod pob digwyddiad yn rhad ac am ddim yn wych, a gobeithiwn y bydd yr ŵyl yn cyflwyno artistiaid sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith i gynulleidfaoedd newydd ar draws y ddinas."

Bydd y Babell Cwtsh ym Maes Dewi Sant hefyd yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n mynychu i ddysgu mwy am gyfleoedd i fwynhau'r iaith Gymraeg yn ardal Abertawe. Yn ogystal â chyfle i ddysgu am ddigwyddiadau iaith Gymraeg eraill ar y gorwel, bydd cyfleoedd hefyd i bori trwy ddetholiad o nwyddau Siop Tŷ Tawe a dysgu mwy am y cyrsiau sydd ar gael trwy Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe. Bydd cyfle i gwrdd â Mr Urdd a Magi Ann, a bydd Cymraeg i Blant yn darparu sesiynau Stori a Chân yn ogystal â gwybodaeth bellach ynglŷn â chyfleoedd i deuluoedd fwynhau'r iaith Gymraeg gyda'i gilydd.

Cyflwynir gweithgareddau canol y ddinas digwyddiad Croeso gan y cyngor mewn cydweithrediad â First Cymru Buses Ltd a gyda chefnogaeth Bwyd a Diod Cymru a Nathaniel Cars. Mae mwy o wybodaeth ar gael trwy wefan Croeso Bae Abertawe.

## DATHLIADAU GŴYL DDEWI CAPEL HOPE-SILOH PONTARDDULAIS

-ELUNED JONES



## RHAGLEN 2024 CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH
-DAVID GWYN JOHN

**Mawrth 14eg** (ail nos Iau) - Noson gan yr aelodau.

**Ebrill 18fed** - Iwan Griffiths, Cyflwynydd Newyddion Adran Newyddion y BBC

**Mai 16eg** - 'Gosod Cymru ar y Llwyfan Rhyngwladol.' Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus Cymdeithas Beldroed Cymru.

**Mehefin 20fed** - 'Fy Straeon Gorau', noson yng nghwmni Alun Lenny, cyn-ohebydd BBC Cymru.

**Gorffenaf 4ydd** (nos Iau laf), Capel y Tabernacl - Datganiad organ gan Huw Tregelles Williams (noson dan nawdd Cymdeithas Organyddion Abertawe).

**Gorffennaf 18fed** - Ymweliad â Phontardawe, 2.30y.p

**Awst 7ed** - (Bore Mercher) Ymweliad â'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd (ar y cyd â Merched y Wawr).

**Medi 19eg** - 6.30.y.h, Festri'r Tabernacl, SA6 8BR. Swper Cynhaeaf. Gwestai Sian Thomas ('Pnawn Da/Heno)

**Hydref 17eg** - Festri'r Tabernacl . 'Fy Ngwaith a'r Daith', Nerys Howel, (Ymgynghorydd Bwyd / 'Pnawn Da) yn siarad am ei gwaith, ac am ei thaith i Seland Newydd yn 2021 i gefnogi ei merch, Elinor Snowsill, yn chwarae dros Gymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd i Ferched.

**Tachwedd 21ain** - Festri'r Tabernacl. Noson i ddathlu 75 mlynedd ers sefydlu Ysgol Gymraeg Lon Las ac addysg Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg yn Abertawe a Chwmtawe Isaf.

**Rhagfyr 12fed** (ail nos Iau) - 1.00 y.p am 1.30.y.p. Cinio Nadolig. Lleoliad Clwb Golff Langland.

## CYSTADLEUAETH SIARAD CYHOEDDUS Y ROTARI
-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

Da iawn Jonah Eccott, Angharad Cunliffe a Hari James am gynrychioli Ysgol Bryn Tawe yn Rownd Derfynol Siarad Cyhoeddus y Rotari y prynhawn yma yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin a llongyfarchiadau mawr i Hari ar ennill Cadeirydd gorau'r gystadleuaeth!



## SIOE MEWN CYMERIAD
-MEINIR JONES

Diolch i Gwmni Theatr 'Mewn Cymeriad' am ddod i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe i berfformio sioe am Syr Ifan ab Owen Edwards. Cafodd holl ddisgyblion bl.7 gyfle i weld y perfformiad gan fwynhau'n fawr a dysgu mwy am ei hanes!





## DATHLU DYDD MIWSIG CYMRU YN YSGOL GYFUN GŴYR
-NON LEWIS

Mwynhaodd y côr iau gig gan y cerddor Mari Mathias er mwyn dathlu Dydd Miwsig Cymru. Roedd yr awyrgylch yn hyfryd a phawb wedi joio mas draw! Ar ddiwedd y gig, cafodd rhai disgyblion gyfle i holi Mari am ei gwaith a'i chaneuon hefyd. Diolch yn fawr i Fenter Iaith Abertawe am drefnu.





## CYHOEDDI DYDDIAD GŴYL TAWE 2024

-MENTER IAITH ABERTAWE




Bydd gŵyl iaith Gymraeg Abertawe, Gŵyl Tawe, yn dychwelyd unwaith eto i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar ddydd Sadwrn yr 8fed o Fehefin 2024.



Yn dilyn blwyddyn gyntaf llwyddiannus yn ei chartref newydd yn 2023, bydd yr ŵyl eto yn gweld perfformiadau gan lu o artistiaid amgen, cyfoes sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg mewn ffyrdd amrywiol a chyffrous. Bydd y gerddoriaeth fyw yn cael ei chynnal ar draws prif lwyfan awyr agored yr ŵyl a'r ail lwyfan yng nghanol yr amgueddfa, a bydd y lein-yp llawn yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Mawrth.

Mae'r digwyddiad yn hollol rad ac am ddim, gyda'r amgueddfa yn agor am 10 y bore a'r adloniant yn rhedeg tan yr hwyr. Yn ogystal â'r gerddoriaeth fyw, bydd sioeau theatr ryngweithiol i deuluoedd, perfformiadau gan ysgolion lleol, ac amryw o weithdai creadigol gan ein partneriaid o'u stondinau yng nghyntedd yr amgueddfa.

Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, a gyda chefnogaeth Cyngor Abertawe, Cymru Greadigol, a Coleg Gŵyr Abertawe.

## GWEITHGAREDDAU IAITH GYMRAEG AM DDIM I DEULUOEDD DROS HANNER TYMOR

Trefnwyd rhaglen o weithgareddau iaith Gymraeg i blant, pobl ifanc, a theuluoedd yn rhad ac am ddim ar draws Abertawe yn ystod hanner tymor diolch i Menter Iaith Abertawe a chefnogaeth gan gronfa COAST Cyngor Sir Abertawe.

Rhai uchafbwyntiau'r wythnos oedd gweithdy cyfansoddi gyda'r cerddor, Delyth McLean, a sesiwn dwdlo gan yr artist Rhys Padarn o OrielOdl.

Ar y dydd Iau, daeth criw o blant a phobl ifanc i Dŷ Tawe a mwynhau'r cyfle i ysgrifennu caneuon gyda cherddor profiadol. Ysgrifenwyd 3 chân yn ystod y sesiwn - criw arbennig a thalentog iawn!

I gloi wythnos lwyddiannus o weithgareddau, ymunodd Rhys Padarn â ni ar ddydd Sadwrn i arwain ei sesiynau dwdlo. Dros gyfres o 2 sesiwn, roedd 19 o blant a phobl ifanc wedi ymuno â Rhys ar gyfer ei weithdy, gan ddilyn ei gyfarwyddiadau ar sut i ddylunio yn ei steil adnabyddus ef. Bu'r grwp cynradd yn dylunio llun am 'Ffrindiau' a'r criw uwchradd yn rhoi cynnig ar ddarlun o'r hen hwiangerdd Gymraeg 'Mi Welais Jac y Do'. Mwynhaodd pawb yn fawr, a phob un wedi llwyddo i greu darlun a oedd yn debyg i un gwreiddiol Rhys!



Y criw yn mwynhau'r gweithdy cyfansoddi
(Llun Cwmni Blodau Haul)



Rhys Padarn gyda rhai o'r criw uwchradd.
(Llun Menter Iaith Abertawe)

Chwith: Clwb Pontio i blant clwstwr Bryn Tawe. Sesiwn hwyliog o gemau a chyfle i ddod i nabod plant newydd yn eich ysgol newydd! Nos Fercher, 20/03, 4.30-5.30.




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

29.02 - Gŵyl Croeso/Cân i Gymru: Morgan Elwy + Mali Hâf + Lily Maya + Sgilti (Arena Abertawe)

01.03. - Gŵyl Croeso: Islet + Angel Hotel + The Bad Electric + Eädyth + Kid Mercury (The Bunkhouse)

02.03 - Gŵyl Croeso: Brigyn + Danielle Lewis + Cwtsh (Tŷ Tawe)

02.03 - Gŵyl Croeso: Sage Todz + Luke RV (Elysium Gallery)

15.03 - The Night School + We The Sun + Taran (The Bunkhouse)

23.03 - Cowbois Rhos Botwnnog (The Bunkhouse)

11.04 - NAWR: Accü + Evolution Of Beauty + Warm Leveret (Tŷ Tawe)

12.04 - Lowri Evans + Cynefin (Tŷ Tawe)

19.04 - Carwyn Ellis (Tŷ Tawe)













Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Ionawr.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Mawrth erbyn Mawrth 15fed trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government



MENTER IAITH ABERTAWE YN CYFLWYNO

# CARWYN ELLIS

## + MWY / SUPPORT

## 19.04.24 TŶ TAWE, ABERTAWE

19:00 / £8 ADV
MENTERABERTAWE.ORG

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ardal Bae Abertawe
Swansea Bay Region

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

menter iaith abertawe